AQA CCEA OCR Pearson CBAC

**Canllawiau – nodiadau ar drefniadau safle arall ar gyfer blwyddyn academaidd 2024/25**

**DS Nid yw** defnyddio safle arall yn drefniant y mae angen ei gymeradwyo ymlaen llaw. Mae angen llenwi'r ffurflen ar-lein er mwyn hysbysu Gwasanaeth Arolygu Canolfannau'r CGC y bydd y ganolfan yn cynnal arholiadau oddi wrth y cyfeiriad cofrestredig. Pan fydd y ffurflen wedi'i chyflwyno, **nid oes** angen cysylltu â Gwasanaeth Arolygu Canolfannau'r CGC i gael cadarnhad bod y trefniant wedi'i gymeradwyo.

Yn ychwanegol i'r canllawiau hyn **rhaid** i ganolfannau hefyd gyfeirio at gyhoeddiad y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*:
http://www.jcq.org.uk/exams-office/ice---instructions-for-conducting-examinations

1. **Rhaid ond** defnyddio'r ffurflen hon ar gyfer arholiadau ysgrifenedig wedi'u hamserlennu yn y cymwysterau canlynol:

   - AEA
   - Cymwysterau Cyffredinol Cymhwysol AQA
   - AQA Tystysgrif Lefel 2 Mathemateg Bellach
   - AQA Tystysgrif Lefel 3 Astudiaethau Mathemategol
   - Cymwysterau BTEC (Cymwysterau Cyntaf BTEC, Cymwysterau Cenedlaethol BTEC a Dyfarniadau Tech BTEC)
   - Cymwysterau Cenedlaethol Caergrawnt
   - Cymwysterau Technegol Caergrawnt
   - Dyfarniadau Edexcel
   - TGAU Rhyngwladol Edexcel
   - TLM
   - FSMQ
   - TAG
   - TGAU
   - Tystysgrifau Lefel 3 OCR
   - Cymwysterau Cyffredinol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
   - Dyfarniadau a Thystysgrifau Galwedigaethol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC
   - Dyfarniadau Galwedigaethol Lefel 1 a Lefel 2 CBAC (Dyfarniadau Technegol)
   - Tystysgrifau Cymhwysol, Diplomâu a Diplomâu Estynedig Lefel 3 CBAC.

   Cysylltwch â'r corff dyfarnu perthnasol am arweiniad ar unrhyw gymwysterau eraill.

   Defnyddir y Porth Gweinyddu Canolfannau (CAP) i gyflwyno ar-lein. Gellir cyrchu'r Porth Gweinyddu Canolfannau gan ddefnyddio unrhyw un o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu.

2. **Ni ddylid** cyflwyno cais ar-lein ar gyfer:

    - unedau asesiad dan reolaeth TGAU
    - unedau gwaith cwrs TAG
    - cydrannau asesiadau di-arholiad TAG/TGAU
    - asesiadau Siarad ITM
    - asesiadau ymarferol.

    Os oes angen safle arall ar gyfer asesiad sydd heb ei amserlennu, **rhaid** i ganolfannau gysylltu â'r corff dyfarnu am arweiniad.

3. **Dylid ond** defnyddio cyflwyniad ar-lein pan mae canolfan yn bwriadu cynnal arholiad ar gyfer unrhyw ymgeiswyr ar safle arall heblaw am gyfeiriad cofrestredig y ganolfan (gweler dogfen y CGC – *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau*).

4. Rhaid dewis pob arholiad os gwneir cyflwyniad ar-lein i ymgeisydd unigol neu grŵp o ymgeiswyr i sefyll arholiadau mewn safle arall. **Ni ddylid** dewis y categori 'cynhelir pob arholiad ysgrifenedig wedi'i amserlennu ar gyfer y gyfres gyfan mewn lleoliad arall' ar gyfer ymgeisydd unigol na grŵp o ymgeiswyr. Dim ond yn achos carfan gyfan y dylid dewis y categori hwn.

5. **Nid yw** trefniadau safle arall yn berthnasol i drefniadau ymgeisydd sydd wedi'i drosglwyddo.

6. **Rhaid** trafod unrhyw ymholiadau am addasrwydd y safle arfaethedig â Gwasanaeth Arolygu Canolfannau'r CGC cyn cwblhau'r ffurflen ar-lein.

7. **Rhaid** cadw papurau cwestiynau a deunyddiau arholiadau o dan amodau diogel yng nghyfeiriad cofrestredig y ganolfan tan **90 munud cyn amser dechrau swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer yr arholiad**.

    **Dim ond o fewn 60 munud i amser dechrau swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer yr arholiad** y gellir lawrlwytho copi PDF o'r papur cwestiynau safonol o safle allrwyd diogel y corff dyfarnu.

    Yna, bydd aelod o staff y ganolfan yn mynd â'r papur(au) cwestiynau i leoliad yr arholiad (gan gynnwys goruchwyliwr a benodwyd gan y ganolfan).

8. **Cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod y papurau cwestiynau a deunyddiau arholiadau yn cael eu cludo'n ddiogel o fewn 90 munud i amser dechrau swyddogol y corff dyfarnu ar gyfer yr arholiad.**

9. **Ni ddylid** cludo deunydd cyn diwrnod yr arholiad **ar unrhyw gyfrif**.

10. **Pennaeth y ganolfan sy'n gyfrifol am sicrhau bod yr arholiad(au) yn cael eu cynnal yn unol â dogfen y CGC *Cyfarwyddiadau ar gynnal arholiadau.***

**Rhaid** cyflwyno ar-lein yr hysbysiad o'r bwriad i gynnal arholiadau mewn safle arall yn ddim hwyrach na chwe wythnos cyn dechrau'r gyfres arholiadau.

Fodd bynnag, os yw'r hysbysiad i ymgeisydd sefyll arholiad gartref neu yn yr ysbyty oherwydd cyflwr meddygol, efallai na fydd yn bosibl cyflwyno'r wybodaeth chwe wythnos ymlaen llaw. Dylid gwneud cyflwyniad hwyr cyn gynted ag y byddwch yn gwybod y manylion.

**Nid oes** angen tystiolaeth feddygol i ganiatáu i ymgeisydd sefyll ei arholiadau gartref neu mewn ysbyty.

Os yw'r ganolfan wedyn yn nodi nad oes angen y trefniant safle arall mwyach, yna dylid ei dynnu'n ôl ar-lein gan ddefnyddio'r Porth Gweinyddu Canolfannau.

**Cyngor:**

**Canolfannau yn Lloegr a'r Alban:**

e-bost: jcqinspectionservice@aqa.org.uk

Ffôn: 01483 556 271

**Canolfannau yng Nghymru**

e-bost: jcqinspectionservice@wjec.co.uk

Ffôn: 02920 265 077

**Canolfannau yng Ngogledd Iwerddon**

e-bost: centresupport@ccea.org.uk

Ffôn: 028 9026 1293

©CGC 2024 – Yn weithredol o 1 Medi 2024